# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 6

ATODOL

*Iechyd meddwl a lles emosiynol*

### 63 Dyletswydd i roi sylw i iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc

(1) Rhaid i berson o fewn is-adran (2), wrth arfer unrhyw swyddogaeth a roddir gan neu o dan y Ddeddf hon, roi sylw i iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc y mae arfer y swyddogaeth yn debygol o effeithio arnynt.

(2) Y personau yw—

(a) pennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;

(b) corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;

(c) darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir;

(d) yr athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am uned cyfeirio disgyblion;

(e) y pwyllgor rheoli ar gyfer uned cyfeirio disgyblion;

(f) person sy'n darparu addysgu a dysgu ar gyfer plentyn ac eithrio mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion yn rhinwedd trefniadau a wneir o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56);

(g) awdurdod lleol yng Nghymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 63 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I2** A. 63 mewn grym ar 1.9.2022 gan O.S. 2022/652, **ergl. 4(d)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Iechyd meddwl a lles emosiynol.